



ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2018 – 2019)

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Henblas sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).

We are pleased to present the Annual Report of the Governors of Ysgol Henblas in accordance with School Governors Annual Report Regulations (Wales).

Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny ar bapur i'r ysgol erbyn 14/2/2020. Fel arall, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am lwyddiannau'r ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad.

We do not intend to hold a specific meeting to discuss this report unless a significant number of parents ask for a meeting. If you feel you would like to attend such a meeting could you please make a written request to the school by 14/2/2020. Otherwise we hope that you will enjoy reading about our school's successful year. You are welcome to get in touch with the chair of the governors or the headteacher should you wish to have additional information about anything, or if you would like to make a comment about this report.

ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2018-19)

Dyddiadau Tymor 2019-2020

Tymor	Tymor yn dechrau	Gwyliau Hanner Tymor yn dechrau	Gwyliau Hanner Tymor yn Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	Dydd Llun Medi 2il 2019	Dydd Llun 28ain o Hydref 2019	Dydd Gwener 1af o Dachwedd 2019	Dydd Gwener 20ain o Ragfyr 2019
Gwanwyn	Dydd Llun 6fed o Ionawr 2020	Dydd Llun 17eg o Chwefror 2020	Dydd Gwener 21ain o Chwefror 2020	Dydd Gwener 3ydd o Ebrill 2020
Haf	Dydd Llun 20ed o Ebrill 2020	Dydd Llun 25 ain o Fai 2020	Dydd Gwener 29ain o Fai 2020	Dydd Gwener 17eg o Orffennaf 2020

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd (dim ysgol i'r plant)

Dydd Llun Medi 2il 2019
Dydd Mawrth Medi 3ydd 2019
Dydd Llun Tachwedd 4ydd 2019

CALAN MAI – Dydd Llun Mai 4ydd 2020

Bydd 1 diwrnod arall o hyfforddiant yn 2019/2020 - dyddiad heb ei bennu eto

CYNNWYS

Neges gan y Cadeirydd

Gwybodaeth am yr ysgol a'r Corff Llywodraethu

Rhoddion i Elusennau

Datblygiadau Cwricwlaidd

Gweithgareddau Amrywiol

Presenoldeb ac Absenoldeb

Neges gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Henblas 2018-2019 i chi ar ran Corff Llywodraethu'r ysgol. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trosolwg o brif weithgareddau a chyflawniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Fel ysgol mae Ysgol Henblas yn parhau i ddangos cynnydd ym mhob maes. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, o dan arweinaid Mr Jones, y Pennaeth ac aelodau o staff hynod ymroddgar, mae'r ysgol wedi parhau i ffynnu a chyrraedd y safonau uchel a osodwyd.

Bu llwyddiannau di-ri yn ystod 2018-19 mewn nifer o feysydd gwahanol, (academaidd, cymdeithasol, chwaraeon ac ati) a rhoddir flas i chi o'r llwyddiannau hyn yng ngweddill yr adroddiad yma. Mae'r Llywodraethwyr yn ymhyfrydu yn y llwyddiannau hyn ac yn llongyfarch pawb oedd ynghlwm â'r ysgol wrth gyflawni blwyddyn arall wych. Gwerth cofio hefyd fod Estyn wedi ail-ymweld â'r ysgol ddiwedd 2018 gan gadarnhau ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol, ac felly na fyddent yn ymweld â ni eto yn y dyfodol agos. Rydym yn parhau felly i gynnal safonau uchel yr ysgol, a phleser arall oedd ymestyn croeso i'r plant meithrin â ymunodd â theulu'r ysgol ym mis Medi.

Rydym pob amser yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion, ac yn parhau i werthfawrogi pob aelod o staff, y rhai sydd yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu, am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth sicrhau bod y disgyblion yn profi amgylchedd dysgu rhagorol sydd hefyd yn hwyl ac yn bleserus.

Mae addysg yn ymdrech tîm rhwng rhieni, llywodraethwyr, athrawon a disgyblion ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth, ymglymiad a'ch brwdfrydedd tuag at fywyd yr ysgol ac addysg eich plant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ac yn diolch i aelodau'r Cymdeithas Rhieni Athrawon am eu hymrwymiad, a'u hymdrechion diflino wrth gefnogi cymuned yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Mae llwyddiant yr ysgol o ganlyniad i'r gwaith tîm gwych sydd yn digwydd rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae'r flwyddyn academaidd newydd yn dod â heriau a gofynion newydd, (er enghraifft y gwaith paratoi ar gyfer y cwriciwlwm newydd), ond gydag eich cefnogaeth barhaus fe fyddwn yn sicrhau fod Ysgol Henblas yn rhoi'r addysg orau bosibl i'n disgyblion.

Byddwn yn parhau felly i sicrhau fod pob disgybl yma yn cael "gwreiddiau i dyfu, adennydd i hedfan".

Yn gywir
Rhys Parry
Cadeirydd y Llywodraethwyr

1. GWYBODAETH AM YR YSGOL

Cadeirydd Y Corff Llywodraethu

Mr Rhys Parry
Ysgol Henblas
Llangristiolus
Bodorgan
LL62 5DR

Is Gadeirydd

Mrs Catrin Lewis Jones

Pennaeth

Mr Huw Jones

Clerc i'r Corff Llywodraethu

Mrs Rhian Khardani

Llywodraethwyr – Rhieni

Mrs Eleri Stephen

Mr Paul Roberts

Llywodraethwyr - Staff

Mrs Manon Roberts

Llywodraethwyr – Cymunedol

Mr Stephen Keen

Llywodraethwyr – Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol

Cyng Dafydd Roberts

Mr Rhys Parry

Llywodraethwyr – Cyngor Cymuned

Andrew Hughes

STAFFIO MEDI 2019

Meithrin/Derbyn: Mrs Kelly Owen/Anti Diane

Blwyddyn 1 a 2: Mrs Manon Roberts

Blwyddyn 3 a 4: Mrs Heather Williams

Blwyddyn 5 a 6: Mr Huw Jones

Athrawes CPA: Mrs Sue Legge

Cyddlynnydd ADY: Mrs Roberts/Mrs Legge

Cynorthwyyr / Ymyrraethau Dysgu: Mrs Diane Jones, Mrs Carol Jones, Mrs Nia Jones, Mrs Sharon Barton, Mrs Emma Dryhurst, Mrs Glenys Williams

Staff y gegin: Mrs Sian ac Mrs Aloma Jones

Gofalwr: Mr Barry Jones

Goruchwylwraig amser cinio: Ms Pat Williams

Hyfforddion offerynnol: Ifan Dafydd, Elen Keen, Elin Roberts

Hyfforddiant staff 2018-19:

Pwy?	Ble?	Pryd?	Pwy a beth?
DE	Ysgol Llangefni	14/9/18	Marshalyddion tan
HEJ	Nant BH	27/9/18	CYA
KO	Parc Menai	3/10/18	Google classroom
Pawb	Ysgol	24/9/18	Eaware
DE	archifdy	3/10/18	Schoolcomms
HEJ	Venue Cymru	3/10/18	Safonau proffesiynol
MR	Ty Menai	9/10/18	Datblygu iaith fynegiannol
DE	Ysgol	11/10/18	Smart session
HEJ/KO	Ysgol Fali	19/10/18	Cath Delve
CJ	Sparc	25 a 26/10/18	Hyfforddiant MAPA
pawb	Ysgol Corn Hir	5/11/18	HMS dalgylchol llesiant
KO	Ysgol Llanfair	6/11/18	Datblygu annibynniaeth yn CA2
SL	Prifysgol Bangor	9/11/18	Manteision dwyieithrwydd
HEJ	Swyddfa Cyngor	16/11/18	ADY

DJ/KO/HEJ/NJ	Ysgol Bodffordd	26/11/18	Dyslecsia
HEJ	Swyddfa cyngor	27/11 5/12 6/12	Hyfforddiant IOSH
SL	Ty Menai	16/1/19	Taenlenni
HEJ	Canolfan busnes Conwy	14/1/19	Paratoi at Arwain
HEJ/MR	Ysgol David Hughes	9/1/19	Codau PLASC
HEJ	Swyddfeydd Cyngor	15/1/19	Amddiffyn Plant
SL	Ysgol Henblas	17/1/19	Ysgol Iach
HEJ	Ysgol Henblas	18/1/19	Rhifedd
HEJ	Venue Cymru	22/1/19	Gweithdy Trawsnewid
KO	Swyddfa Penrallt	30/1/19	Bike It
MR	Ty Menai	11/2/19	Llythrennedd/rhifedd/TGCh
Holl staff	Graig/Corn Hir/Esceifiog	4/3/19	HMS TGCh
KO	Ysgol Parc y Bont	13/3/19	Rhifedd – cydweithio ysgol i ysgol
MR	Treysgawen	14/3/19	Cynhadledd blynyddoedd cynnar
HEJ	Ashton under Lyme	22/3/19	Asesu ffurfiannol Shirley Clarke
MR	Ty Menai	28/3/19	Hyfforddiant Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
KO	Swyddfeydd Cynnal	28/3/19	Cracio'r cod TGCh
KO	Venue Cymru	29/3/19	Adborth ar waith plant Shirley Clarke
SL	Llanelwy	28+29/3/19	Cynrychiolydd Undeb
MR a CJ	Ysgol y Graig	1/4/19	Rhyngweithio a chyfathrebu
MR	Ysgol Gyfun Llangefni	8/4/	Rhwydwaith CS ardal tu allan
DE	Ysgol Graig	1/5	Hyfforddiant schoolcomms
HEJ	Galeri Caernarfon	14/5	Codi ymwybyddiaeth Cwricwlwm i Gymru
SL	Plas Menai	17/5	Camau cyntaf GSuite
HEJ	Ysgol Gyfun Llangefni	14/5 a 21/5	Cymedroli gwaith blwyddyn 6
MR a KO	Ysgol Corn Hir Ysgol Esceifiog	21/5	Safoni gwaith blwyddyn 2 a 4
MR	Canolfan Addysg y Bont	22/5	Rhwydwaith GwE ardal allanol
MR KO	Ysgol Llanerchymedd	3/6	Ffair arfer dda CS
DE	Ysgol y Graig	3/6	Schoolcomms
NJ SB NJ	Ysgol Cybi	3/6	Llythrennedd cynnar
MR DE NJ KO	Canolfan Conwy	10/6	Ardal allanol CS
HEJ KO SL	Ty Menai	5/6 11/6 14/6	Sesiynau briffio 6 MDPH

MR	Swyddfa cyngor	20/6	Panel adolygu cynnydd CS
----	----------------	------	--------------------------

NIFEROEDD YM MHOB DOSBARTH MEDI 2019

Meithrin a Derbyn: 23

Blwyddyn 1 a 2: 19

Blwyddyn 3 a 4: 32

Blwyddyn 5 a 6: 24

Cyfanswm y disgyblion = 98

Cefndir ieithyddol y plant – Mehefin 2019:

Oedran	Sy'n siarad Cymraeg gartref	Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg	Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl	Na allant siarad Cymraeg o gwbl
10 - 11 oed	11	3	0	0
9 - 10 oed	10	1	0	0
8 - 9 oed	9	2	2	0
7 - 8 oed	16	3	0	0
6 - 7 oed	11	0	0	0
5 - 6 oed	8	0	2	0
4 - 5 oed	7	0	2	0
Cyfanswm	72	9	6	0

laith y cartref:

Mae 83% yn siarad Cymraeg yn y cartref, 10% yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ond o gartrefi lle nad Cymraeg yw'r iaith, 7% yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl.

Cyfarfodydd y corff 2018-19:

Medi 20 2018:

Ethol Swyddogion am y flwyddyn academiaidd 2018/19

Penderfynu ar Aelodaeth y Paneli

Cadarnhau Cylch Gorchwyl Paneli

Buddiannau

Hyfforddiant i Lywodraethwyr

Taflen Cofrestru Troseddau (DBS)

Cadarnhau a mabwysiadu Côt Ymddygiad i'r Llywodraethwyr

Hydref 10 2018:

Cyfarfod a'r Cyngor Ysgol – Cafwyd sesiwn i'r Llywodraethwyr gydag aelodau'r Cyngor Ysgol, cafwyd craffu ar lyfrau gwaith y plant, rhoddwyd holiadur i aelodau'r Corff lle roedd y plant yn ymateb yn fedrus i'r cwestiynau.

Addysg a darpariaeth – Cyflwyniad ar y Siarter Iaith.

Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth ar y Siarter.

Clwb ar ôl Ysgol – Aeth holiadur allan oddeutu tair wythnos yn ôl, pan ddaeth yr ymatebion nid oedd hyn yn gwneud i'r clwb fod yn gynaliadwy, nid yw'r galw amdano yma ar hyn o bryd. Hoffai'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr ddiolch i Helen Munro a Carys Roberts am eu gwaith

Safonau – Asesiadau diwedd cyfnod gan gynnwys adborth yr is-banel Safonau ar y gwaith dadansoddi.

Cyfarfod o'r is-banel wedi ei gynnal lle treuliwyd amser yn edrych ar y data, ategodd y Pennaeth mai'r panel safoni oedd yn gwneud y dadansoddi ar y cyd gyda'r pennaeth a Mrs Roberts (cyfnod Sylfaen).

Gofal, cymorth ac arweiniad

Amddiffyn Plant, Lefel 1 – rhoddwyd arweiniad i'r Llywodraethwyr gan y pennaeth.

Adroddiad Hunan Arfarnu diogelu – Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth am yr hyfforddiant a'r adroddiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cynllun Datblygu'r Ysgol (CDY) Cynllun Gweithredu'r Ysgol (CGY)

Mae'r cynllun wedi cael ei drafod gyda staff yr ysgol, rhoddwyd copi o fersiwn gryno i'r llywodraethwyr yn y cyfarfod hwn.

Polisiau:

- Nofio
- Presenoldeb
- Gadael Tir yr Ysgol
- Iechyd & Diogelwch
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ymweliadau Addysgol – Pennaeth wedi bod ar hyfforddiant Ymweliadau Addysgol

Is-banel Cyllid – adroddiad

Prif sylw oedd gan Rh. P oedd bod y gyllideb yn edrych yn iawn a disgwylir bydd AWG o oddeutu £10,000 yn Mawrth 2019.

Chwefror 13:

Cyflwyniad gan Mrs Legge a'r Grwp Siarter Iaith

Cafwyd cyflwyniad gan aelodau'r grwp Siarter Iaith dan arweiniad Mrs S Legge.

ADY – Margaret Davies, Arweinydd Trawsnewid ADY

Croesawyd MD i'r cyfarfod, gyda Margaret Davies oedd Mrs Angela Dew hi yw cydlynnydd / eiriolwr ADY dalgyllch Cefni.

Mae Mrs Manon Roberts yn gweithio yn agos gyda Mrs Dew yn sgil ei rol fel cydlynnydd ADY yr ysgol. Rhoddwyd cyflwyniad ar y newidiadau mawr sydd ar y gweill i'r gwasanaeth ADY.

Polisiau:

Mynediad i ysgol/Egwyddorion ymddygiad, Llwydoraethwyr/Gwirfoddolwyr/Absenoldeb rhiant / polisi trawsrhiwiol.

Safonau

Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau CGY – prif nodau / cyflawni, system GwE G6 a thracio.

Adborth ar y daith ddysgu rhifedd (31.1.2019) – cafwyd adborth gan Rh.P – ei fod wedi mwynhau, fframwaith yn drefnus, wedi siarad yn uniongyrchol gyda'r plant ac yr oeddent i gyd yn fodlon trafod a siarad yn rhydd gyda'r Llywodraethwyr.

Fframwaithi Rhifedd yn rhan naturiol o'r cynlluniau gwaith erbyn hyn.

Llywodraethwyr wedi mwynhau cael y cyfle i fynd ar daith ddysgu.

Craffu ar lyfrau / athrawon yn rhoi adborth am eu gwersi eu hunian, Pennaeth wedi llunio Adroddiad i'r Llywodraethwyr

Lles

Presenoldeb disgyblion – Medi 98%, Hydref 97%, Tachwedd 97%, Rhagfyr 97%, Ionawr 2019 95%. Targed yr ysgol yw 96.2%. Bydd Angela Bennett, Swyddog Lles yr ysgol yn cynhyrchu adroddiadau misol ar bresenoldeb.

Addysgu a darpariaeth

Ymgynghori ar ostwng oed mynediad - sesiynau 'drop in' wedi cael eu cynnal yr wythnos ddiwethaf.

Mae ffurflenni ymateb i'r ddogfen ymgynghori lle gellir rhieni wneud sylwadau a'i hanfon i'r AALI drwy e-bost.

Gofal, cymorth ac arweiniad

IOSH – Pennaeth wedi mynychu hyfforddiant

Ebrill 4 2019:

Cyflwyniad gan Gwenno Jones (GWE) Cyflwyniad PP ar gael

- Meddylfryd TWF

- 4 diben

- Meddylfryd Twf (Growth Mindset)

Adroddiad gan y Pennaeth

- Ymgynghoriad ar gostwng oed yr Ysgol yn mynd yn ei flaen (penderfyniad Mis Mehefin)
- Rhaglolygon niferoedd Medi 2019 yn rhai iach
- Presenoldeb yr Ysgol
- Profiadau amrywiol ac eang wedi cael eu cynnig i'r disgyblion

LLafaredd o fewn y Cwricwlwm

- Craffu ar sampl o waith llafar y disgyblion (ffurf fideo)

Staffio

ADY

Adroddiad gan Manon Roberts

Gwelwyd Ffolder ADY diweddar

Gorffennaf 2il:

Cyngor Ysgol yn arddangos eu gwaith TGCH – Mrs Kelly Owen

Cafodd y Llywodraethwyr amser i dreulio gyda'r disgyblion yn edrych ar y gwaith TGCH maent yn wneud a chafwyd adborth gan Kelly Owen (KO cydlynnydd TGCH).

DBS – awdit wedi ei gynnal gan yr awdurdod lleol - pob dim yn ei le.

Gwefan Ysgol Henblas a Facebook yn rhoi blas o ddigwyddiadau'r ysgol

Y nifer terfynol wedi derbyn, bydd 6 plentyn yn dod mewn 4 bore yr wythnos, 9 – 11.30

Diweddariad ar y CGY

Pennaeth wedi creu pedair adroddiad ar gyfer y pedair blaenoriaeth.

Llywodraethwyr yn gweld rhyngweithio yn naturiol iawn yn yr ysgol.

Cwricwlwm newydd i Gymru – diweddariad

Cwricwlwm Newydd – Cael ei drafod yn cyfarfod Penaeithiaid ar y 4ydd o Orffennaf, 2019, mi fydd y Cwricwlwm Newydd yn flaenoriaeth Dalgylch.

Asesiadau diwedd cyfnod allweddol

Pawb wedi derbyn y wybodaeth / adroddiad.

Polisiau – Cwricwlwm. Digwyddiadau Difrifol

Cyllid

Cymeradwywyd y gyllideb.

Presenoldeb Staff

Rhannwyd copi o'r tabl presenoldeb staff, mae'r sefyllfa absenoldeb yn dda.

Diolchodd y Llywodraethwyr i'r athrawon am eu presenoldeb gwyb.

Unrhyw Fater Arall

Iechyd & Diogelwch

Cyngor Ysgol wedi bod yn edrych ar y sefyllfa parcio ac mae hyn yn gonsyrn mawr ganddynt, bydd rhaid monitro'r sefyllfa parcio.

Cofnodi coed – mae gwybodaeth wedi dod o'r Awdurdod bydd rhaid cofnodi pob coeden, ei uchder a pa mor berygl ydynt.

Governors Wales – erbyn hyn mae'r ysgol wedi cofrestru gyda hwy.

Moderneiddio Ysgolion Môn – mae'r broses wedi cael ei atal a bydd yn cychwyn o'r newydd.

Hyfforddiant – Mae'r clerc wedi mynychu hyfforddiant i glercod gyda Mrs Meinir Hughes o'r Awdurdod.

Is banel adeiladau:

Wedi cwrdd ar 9/7/19 a chynnal adolygiad o'r safle

2. CYFRANIADAU AT ELUSENNAU

Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod hwyliog – y plant wedi gwisgo eu pyjamas, eraill wedi dod a chacennau er mwyn eu gwerthu, ac yna yn y prynhawn bu'r holl ysgol allan yn efelychu ymgyrch pawen lawen Al Hughes ar Radio Cymru. Diolch i bawb am fod mor hael ac am lwyddo i godi £214.

Diolchgarwch

Roedd yn hyfryd gweld neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch eleni. Diolch i bawb am gefnogi ac i'r holl blant am roi ymdrech mor dda wrth berfformio - o'r rhai ieuengaf yn y cylch meithrin i'r hynaf ym mlwyddyn 6. Casglwyd £333 tuag at ein ffrindiau yn Hafan Henblas, Lesotho.

Comic relief

Cafwyd diwrnod o wisgo dillad eu hunain a llwyddwyd i godi £92

Ymchwil Cancr

Daeth Claire o elusen ymchwil cancr draw i'r ysgol i dderbyn yr arian oedd y plant wedi ei godi yn dilyn y ras am fywyd gynhaliwyd yn ystod yr wythnos iechyd a ffitrwydd. Llwyddodd y plant i godi £668 ar gyfer yr elusen – swm anhygoel fydd yn gymorth arbennig i achos mor werthfawr. Diolch i bawb am gefnogi.

3. DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD

Categori Ysgolion

Ym mis Ionawr 2019 lleolwyd Ysgol Henblas yn y categori melyn, gan adlewyrchu holl waith caled ac ymroddiad y disgyblion a'r staff.

Canlyniadau Asesiad Athro

Gweler yr Adroddiad Cymharol ar gyfer Asesiadau Athrawon Cyfnod Sylfaen a CA2 a throsolwg o berfformiad yr ysgol yn y Profion Cenedlaethol yn Atodiad A, B ac C.

Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)

Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr i'w yfed ar gael ar gyfer y disgyblion trwy'r dydd.

Mae'r holl ddisgyblion yn parhau i redeg milltir o amgylch y trac/cae er mwyn cadw'n iach a heini ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio yn well yn y dosbarth.

Gwobrau Chwaraeon Ynys Mon a Gwynedd

Ysgol Henblas yw enillwyr ysgol gynradd y flwyddyn Ynys Mon a Gwynedd 2019. Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at hyn - yr hyfforddwyr, y rhieni, y staff ond yn bwysicach oll.....y plant gwyh. Yn ogystal daeth y tîm peldroed yn ail yn y categori tîm y flwyddyn. Llongyfarchiadau!

Cegin o fri

Rydym yn gyson ddiolchgar am y bwyd bendigedig sydd yn cael ei ddarparu yn ddyddiol amser cinio. Yn ddiweddar cafodd y gwasanaeth hwn gydnabyddiaeth haeddiannol pan ddaeth swyddogion y cwmni arlwygo Caterlink sef Dawn Williams ac Alan Coward i wobrwyo Anti Sian ac Anti Aloma ar gael marciau llawn mewn arolwg darpariaeth. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy a diolch yn fawr am bopeth – ac am helpu i sicrhau fod cyfran mor uchel o blant Ysgol Henblas yn mwynhau cinio ysgol a chael diet cytbwys dyddiol.

Sioe Mon

Ar ol misoedd o waith dygn yn yr ardd aethpwyd a llond berfa o gynnyrch yr ardd ysgol i Sioe Mon yn ystod gwyliau'r haf. Daeth yr ysgol yn drydydd yn y categori cynradd ac roedd yr holl lysiau ffres yn werth eu gweld. Diolch eto i Mike Allen am roi cymaint o amser i baratoi'r cynnyrch ac i Paul Roberts am ei waith yn sicrhau y grant ar gyfer y gwaith dan ambarel Tyfwch gyda mi.

Wythnos Iach

Ar ddechrau Gorffennaf cafwyd wythnos iechyd a ffitrwydd wedi ei drefnu gan y brwp iach. Cafwyd gweithgareddau karate, sesiwn cylchdroi ffitrwydd, swmba, athletau a chodi pwysau. Roedd llond neuadd wedi mwynhau'r brecwast iach. I goroni'r wythnos fe redodd pob disgybl yn y ras am fywyd. Da iawn bawb.

Wythnos Gwyl Dewi

Ar ddechrau Mawrth bu wythnos o ddathlu Gwyl Dewi Sant. Aeth plant y cyfnod sylfaen i ganu gyda'u cyfoedion o weddill y dalgylch yn Ysgol y Graig. Bu disgyblion yr adran iau yn gorymdeithio gyda'u ffrindiau o ysgolion y dalgylch yn Llangefni ac yna'n mwynhau brwydr y bandiau ysgolion uwchradd yn Ysgol Gyfun Llangefni. Cafwyd disgo cerddoriaeth Gymreig yn ogystal a chydadleuaeth creu cacennau yn cyfleu Cymreictod a lwyddodd i hofi £107.

Big Pedal

Ym mis Mawrth 2019 cymerodd disgyblion yr ysgol ran yn hyn unwaith eto eleni gan annog beicio i'r ysgol. Roedd yr holl feics a'r sgwters tu allan i fynedfa'r ysgol yn tystio i ymroddiad y plant a'r rhieni i'r ymgyrch Big Pedal. Dyma ddangos ymwybyddiaeth o fod yn ddinasyddion sydd yn parchu'r byd o'u cwmpas. Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 ar lwyddo i gael eu cymhwyster beicio yn ddiogel ar y ffordd. Diolch i Mrs Ashworth a Martina am eu hyfforddi'n drylwyr.

Sioe Nadolig - Pip y Pengwin

Pleser mawr oedd gwyllo holl ddisgyblion yr ysgol yn perfformio Pip y Penwgin mor hyderus yn neuadd yr ysgol. Diolch i'r holl staff a fu'n gyfrifol am hyfforddi'r plant mor wych. Roedd y profiad hwn yn ffordd wych o fagu hyder a datblygu sgiliau llythrennedd a chydweithio pob disgybl. Dyna hyfryd oedd gweld neuadd yr ysgol yn orlawn ar gyfer dau berfformiad o'r sioe. Cafodd y gynulleidfa ddilyn hynt a helynt Pip wrth iddo ddianc o sw Henblas gan deithio yn ôl i Antarctica at ei deulu. Roedd y canu a'r actio gan y plant yn fendigedig a phob un yn rhoi pob ymdrech. Diolch i bawb am gefnogi gyda'r gwisgoedd lliwgar.

Clybiau ar ol ysgol

Diolch i'r gwirfoddolwyr am ddarparu cyfleoedd bendigedig i'r disgyblion:

Clwb Celf

Clwb perfformio a gweithgareddau'r Urdd

Clwb peldroed

Clwb rygbi

Ymwelwyr ac Ymweliadau

Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys sioeau hanes Cymru Mewn Cymeriad, gwarchodaeth y ffin, Edward Morus Jones, yr heddlu, cwmnïau theatr, PC Owain i enwi ond ychydig. Trefnwyd nifer o ymweliadau hefyd e.e. Bae Caerdydd, Stone Science, traeth Rhosneigr, Tacla Taid i enwi ond ychydig eto. Am restr lawn o brofiadau gweler ein gwefan ysgol:

<http://ysgolhenblas.org/newyddion.html>

Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mrs Manon Roberts yw cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/2019 bu'r holl staff yn cyfrannu i'r gefnogaeth sydd ar bob disgybl ei angen. Mae'r cynorthwywyr dosbarth yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Rydym yn parhau i weithredu cynllun Tric a Chlic, Safmeds, Dyfal Donc a Talkabout fel ymyrraethau i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

Cyfleoedd Cyfartal

Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchiwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

Cynllun Mynediad i'r Ysgol

Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

Polisiâu

Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisiâu'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda Mr Jones.

Iechyd a Diogelwch

Diogelir y drysau allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.

Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

Toiledau

Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl.

Y Ffordd Ymlaen ar Gyfer 2019/2020

BLAENORIAETH 1 – ADY – diwygio gweithdrefnau i gydfynd a gofynion y ddeddf ADY newydd

BLAENORIAETH 2 – Medrau rhifedd y disgyblion yn codi ar draws yr ysgol yn ogystal a datblygu strategaethau yn annibynnol wrth resymu

BLAENORIAETH 3 – pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial gan wneud dewisiadau pendant ynghylch eu dull o ddysgu

BLAENORIAETH 4 - Addasu darpariaeth yr ysgol er mwyn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru

BLAENORIAETH 5 – datblygu medrau'r holl ddisgyblion ym maes digidol

Cysylltiad â Rhieni

Trefnwyd ffair haf llwyddiannus arall eto gan y Ffrindau ym mis Gorffennaf 2019 a chodwyd £520. Trefnwyd nifer o weithgareddau amrywiol a chymdeithasol yn ystod y flwyddyn hefyd i godi arian gan gynnwys Bake Off a noson bingo. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Ffrindiau am gyfrannu tuag at gostau bysus ar gyfer ymweliadau addysgol.

Er mwyn codi safonau darllen parheir i drefnu cynllun darllen ble gwahoddir rhieni i ddod i ddarllen yn wythnosol gyda disgyblion ar draws yr ysgol. Bu'n llwyddiannus iawn ac mae'r sesiynau darllen yn parhau i ddigwydd.

Cysylltiadau â'r Gymuned

Roedd yn bleser gweld côr yr ysgol yn perfformio yng nghyngerdd Nadolig yr Urdd. Roedd yn hyfryd gweld holl ddisgyblion yr ysgol yn perfformio mor hyderus yn ein cyngherdd Nadolig a Diolchgarwch.

Ysgolion y dalgylch

Mae perthynas glos yn bodoli rhwng holl ysgolion y dalgylch a'r staff yn cyfrannu at weithgorau amrywiol i ddatblygu clwstwr Cefni. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant i staff holl ysgolion y clwstwr ym mis Ebrill 2018 a oedd yn canolbwyntio ar y datblygiadau diweddaraf o ran y fframwaith cymhwysedd digidol.

Gweithgareddau Chwaraeon a Chystadlaethau Amrywiol

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, ac i'r timau pêl-droed, rygbi, gymnasteg a pêl-rwyd am eu llwyddiant yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar ein cae unwaith eto eleni. Diolch i'r holl staff a drefnodd y digwyddiad ac am eu parodrwyd i gynorthwyo.

Mae'r holl ddisgyblion yn cael gwersi nofio yn ystod y flwyddyn.

Antur Awyr Agored – Bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn cyfeiriannu o amgylch Carreglwyd Llanfaethlu. Cafwyd bore llwyddiannus iawn. Cafodd y plant ymarfer eu sgiliau cyfeiriannu yn ogystal a gweithio mewn tim a chadw'n heini mewn amgylchedd prydferth. Diolch i Môn Active am drefnu ac i'r plant am eu cydweithrediad ac ymddygiad ardderchog.

Diwrnod ffitrwydd

Aeth yr ysgol gyfan draw i gae sioe Mona ar gychwyn y mis i gymryd rhan mewn gweithgaredd 'Go Fun Run'. Cafodd y plant ddiwrnod o weithio'n gorfforol a chafwyd hwyl wrth gynhesu fyny gyda'r masgot a dawnsio i gerddoriaeth amrywiol! Fe wnaeth yr holl ddisgyblion yn wych gan redeg o amgylch y trac a chwblhau'r ras!

Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae gennym gysylltiad gyda phentref yn Lesotho sef Hafan Henblas, ac mae'r ysgol yn cefnogi ymgyrch Mr a Mrs Rhys Pritchard yn Kenya o sicrhau pistyll dwr i'r trigolion lleol.

Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru

Mae'r Cynllun Brecwast a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn mynd o nerth i nerth ac yn llawn o ran niferoedd. Pwrpas y cynllun yw rhoi brecwast i rai na fyddai yn cael hynny gartref.

Pwyllgorau yr ysgol (2018- 2019)

Mae llais y plentyn yn bwysig iawn yn yr ysgol a bu'r pwyllgorau canlynol yn brysur iawn yn ystod y flwyddyn:-

Cyngor yr Ysgol

Pwyllgor Eco

Pwyllgor Ysgol Iach

Siarter Iaith

Grwp Bike It

5. PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Gweler isod y canrannau am y flwyddyn ddiwethaf (2018-2019)

% presenoldeb	% absenoldeb awdurdodedig	% absenoldeb anawdurdodedig
96	3.9	0.1

ATODIAD AAdroddiad Cymharol / Dilysiad yr Ysgol 2019 (Cyfnod Sylfaen)

		Deilliant 1	Deilliant 2	Deilliant 3	Deilliant 4	Deilliant 5	Deilliant 6
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol							
	Ysgol	0	0	0	0	2	9
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg)							
	Ysgol	0	0	0	2	4	5
Datblygiad Mathemategol							
	Ysgol	0	0	0	1	3	7
Dangosydd Deilliant Cyfnod Sylfaen = Ysgol –9							
*Dangosydd Deilliant Sylfaen = y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 yn y 3 maes							

Mae disgyblion y cyfnod sylfaen wedi perfformio'n dda eleni. Mae'r canlyniadau eleni yn glodwiw a llawer wedi cyrraedd y DCS. Llwyddodd 82% i gyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen - y deilliant disgwylidig mewn iaith, mathemateg a DpaCh. Llwyddodd 82% i gyflawni deilliant 5+ yn y Gymraeg a 46% yn cyflawni deilliant 6. Llwyddodd 91% i gyflawni deilliant 5+ a 64% yn cyflawni deilliant 6 yn eu datblygiad mathemategol, tra bod 100% wedi cyflawni deilliant %+ yn eu datblygiad personol a chymdeithasol a 82% yn cyflawni deilliant 6.

ATODIAD BAdroddiad Cymharol / Dilysiad yr Ysgol 2019 (CA2)

		Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6	Lefel 4+
<u>CYMRAEG</u>							
	<u>Ysgol</u>	0	1	5	7	1	13
<u>SAESNEG</u>							
	<u>Ysgol</u>	0	1	5	8	0	13
<u>MATHEMATEG</u>							
	<u>Ysgol</u>	0	1	3	10	0	13
<u>GWYDDONIAETH</u>							
	<u>Ysgol</u>	0	1	5	8	0	13
<u>Dangosydd Pwnc Craidd</u>	<u>Ysgol: 13</u>						

*Dangosydd Pwnc Craidd = y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 neu uwch mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg.

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi perfformio'n dda iawn eleni. Mae'r nifer gyflawnodd y Dangosydd Pwnc Craidd i fyny eleni (93%) o 2018 (89%). Mae'r nifer gyflawnodd lefel 4 wedi cynyddu ymhob maes ers 2018, a'r nifer gyrhaeddodd lefel 5 yn uwch ymhob maes yn 2019 o

gymharu a 2018 ac yn sylweddol uwch ym mathemateg. Mae perfformiad y bechgyn yn sylweddol uwch eleni o gymharu a 2018 gyda 100% yn llwyddo i gyrraedd lefel 4+, a pherfformiad y merched yn uwch na 2018 o ran lefel 5 ym maes Cymraeg a Mathemateg.

CRYNODEB O'R ADRODDIAD ARIANNOL

Mae'r crynodeb uchod yn dangos sefyllfa bresennol yr ysgol o ran incwm a gwariant.

Er gwaetha'r sialensau amrywiol a wynebwyd, fe lwyddodd yr ysgol i sicrhau ei bod yn aros yn y du yn ariannol, ac erbyn diwedd Mawrth 2019 roedd ganddi gronfa wrth gefn o £21,120. Bydd y swm yma yn help i'n diogelu rhag heriau ariannol yn y dyfodol, a byddwn hefyd yn defnyddio rhan o'r swm i fuddsoddi yn addysg y disgyblion.

Mae disgwyl i'r cyfanswm sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf ym mis Mawrth 2020 aros yn debyg i hyn, a byddwn yn parhau i fonitro cyllid yr ysgol yn ofalus er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ariannol.

Barn y disgyblion

Datblygiad rhifedd:

Sut ydach chi'n teimlo fod eich sgiliau rhif wedi gwella ers mis Medi?	Da iawn 74 88% y rhan fwyaf	Da 10 12%	Eithaf da
Ydach chi'n cael cyfle i ddefnyddio eich sgiliau rhif ymhob agwedd o'ch gwaith?	Yn aml 76 90% y rhan fwyaf	Weithiau 7 8%	Ddim yn aml 1 1%
Ydach chi'n cael cyfle i ddatrys problemau?	Yn aml 75 89% y rhan fwyaf	Weithiau 9 11%	Ddim yn aml
Ydach chi'n cael cyfle i fyfyrio ar eich gwaith rhif?	Yn aml 68 81% llawer	Weithiau 16 19%	Ddim yn aml
Ydach chi'n cael cyfle i ddefnyddio eich sgiliau rhif mewn gwaith TGCh?	Yn aml 74 88% y rhan fwyaf	Weithiau 8 10%	Ddim yn aml 2 2%
Ydach chi'n defnyddio adnoddau i'ch helpu gyda gwaith rhif?	Yn aml 81 96% bron bob un	Weithiau 3 4%	Ddim yn aml
Ydach chi'n ymarfer eich tablau yn yr ysgol?	Yn aml 81 96% bron bob un	Weithiau 3 4%	Ddim yn aml

Agweddau at ddysgu:

3. A ydych yn teimlo yn ddiogel yn yr ysgol?

[More Details](#)



4. A ydych yn deall pa fwydydd sydd yn iach i chi?

[More Details](#)



5. A ydych yn deall pa mor bwysig yw hi i gadw'n heini?

[More Details](#)



6. A ydych yn dda am gyd-weithio gyda phlant eraill yn yr ysgol?

[More Details](#)



7. A ydych yn gallu canolbwyntio'n dda am amser hir?

[More Details](#)



8. Pan yn wynebu problem gyda'ch gwaith, a ydych yn gwybod beth i'w wneud?

[More Details](#)



9. Ym mha ffordd ydych yn hoffi gweithio orau?

[More Details](#)

Yn unigol	17
Mewn grwpiau	14
Fel dosbarth	2
Fel Partnerriad	22



10. A ydych yn ymddwyn yn dda?

[More Details](#)

Rhan fwyaf o'r amser	48
Weithiau	7
Tydw i ddim yn ymddwyn yn ...	0



11. Ydi plant a staff yn gwrando ar eich syniadau?

[More Details](#)

Ydi	54
Nac ydi	0



Enw:	Blwyddyn <i>Derbyn, 1 + 2</i>
Cwestiynau i'w gofyn	Sylwadau
A ydych yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol? (Ydw/Nac Ydw) <i>27</i>	
A ydych yn deall pa fwydydd sydd yn iach i chi? (Ydw/Nac Ydw) <i>27</i>	
A ydych yn deall pa mor bwysig yw hi i gadw'n heini? (Ydw/Nac Ydw) <i>27</i>	<i>helpu ni' gael cynhyraau helpu ni' gadw'n iach helpu calon ni' pumpio</i>
A ydych yn dda am gyd-weithio gyda disgyblion eraill neu oedolion eraill yn yr ysgol? (Ydw/Nac Ydw) <i>xi</i> <i>26</i>	<i>1 x disgybl nni ddim yn teimlo ei' fect yn cyd-weithio'n dda gan nael yn'n hoffi siŵn (rhann ei' gyflwr)</i>

Holiadur Ilafaredd:

1. Wyt ti'n cael cyfle i drafod gyda phartner yn y gwersi?

[More Details](#)

Yn aml	62
Weithiau	20
Anaml	3



2. Wyt ti'n cael cyfle i ofyn cwestiynau i oedolion?

[More Details](#)

Yn aml	65
Weithiau	20
Anaml	0



• do
• naddo

52
3



5. Wyt ti wedi trio rhywbeth newydd wythnos yma?

[More Details](#)

• Do
• Naddo

50
5



6. Allan o 5 (5 mwyaf ffit), pa mor ffit wyt ti'n meddwl wyt ti?

[More Details](#)

55
Responses

4.42
Average Number

7. Ar ol trio pethau wythnos yma wyt ti am ymuno gyda chlwb chwaraeon?

[More Details](#)

• ydw
• nac ydw

45
10

